

13/03/2020

**ATISN: 13750 – SB – Nawdd Cymdeithasol**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 03/02/2020 am yr adroddiad *Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol yng Nghymru*.

Rwyf wedi penderfynu bod yr wybodaeth a ddisgrifir yn y rhestr amgaeedig yn esempt o'r gofynion datgelu o dan Adran 35(1)(a) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly rhaid ei chadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r esemptiad hwn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 1 y llythyr hwn.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio [rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru](mailto:rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru)

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

## Atodiad 1

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

Gwybodaeth a gedwir yn ôl	Rhif yr adran ac enw'r esemptiad
Copïau o ohebiaeth a chofnodion cyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, ac yn fewnol o fewn Llywodraeth Cymru, ynghylch comisiynu'r adroddiad <i>Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol yng Nghymru</i> , a'r broses o bennu ei gylch gorchwyl.	Adran 35(1)(a) – Formulation of government policy

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu Adran 35(1)(a) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth hystyriaeth ddilydol o Brawf Lles y Cyhoedd.

### Gweithredu adran 35(1)(a) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Dylai copïau o ohebiaeth a chofnodion cyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, ac yn fewnol o fewn Llywodraeth Cymru, ynghylch comisiynu'r adroddiad *Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol yng Nghymru* a phennu ei gylch gorchwyl gael eu hesemptio rhag cael eu datgelu ar sail a35(1)(a) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Sefydlwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i fod yn ffynhonnell cyngor arbenigol annibynnol o ansawdd uchel i Weinidogion Cymru, er mwyn helpu i ddatblygu polisïau a gyda'r broses ehangach o wneud polisïau.

Comisiynwyd adroddiad *Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol yng Nghymru* y Ganolfan fel rhan o asesiad parhaus Llywodraeth Cymru o'r dystiolaeth a'r polisïau yn ymwneud â datganoli gweinyddiaeth agweddau o'r system budd-daliadau lles.

Felly ystyrir bod gohebiaeth mewnol ac allanol gyda'r Ganolfan, mewn perthynas â'r adolygiad cyflym hwn, yn esempt rhag eu cyhoeddi gan fod yr ohebiaeth yn adlewyrchu syniadau cynnar wrth iddynt ddatblygu.

### Prawf Budd y Cyhoedd

Er mwyn bodloni prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r esemptiad, mae gofyn dod i'r casgliad bod y budd i'r cyhoedd o beidio â rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn *gryfach* na'r dadleuon o blaid rhyddhau'r wybodaeth.

### Dadleuon budd cyhoeddus o blaid rhyddhau'r wybodaeth

Mae budd i'r cyhoedd gael gwybod am ddarpariaeth nawdd cymdeithasol yng Nghymru ac effaith andwyol diwygiadau lles parhaus Llywodraeth y DU. Mae mwy a mwy o ddiddordeb mewn datganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol wrth i ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU fynd rhagddynt

Mae datganoli rhai rhannau o nawdd cymdeithasol i Lywodraeth yr Alban, a phwerau newydd i Weinidogion yr Alban fel rhan o Ddeddf yr Alban 2016, wedi codi diddordeb yn y posibilrwydd o ddull tebyg yng Nghymru. Mae budd i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o unrhyw farn a gafodd ei datgan, neu a ddarparwyd mewn cyngor, y gellid ei defnyddio i gyfrannu at, datblygu neu gefnogi gwahanol safbwyntiau polisi wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu ei safbwynt ei hun yn y maes polisi hwn.

### **Dadleuon budd cyhoeddus o blaid peidio â rhyddhau'r wybodaeth**

Mae llywodraethu da yn gwbl ddibynnol ar fedru cynhyrchu'r cyngor gorau posib a thrafod yr opsiynau heb orfod poeni y bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu'n rhy gynnar. Ar hyn o bryd, mae'n gynnar iawn yn y broses o asesu'r achos dros ddatganoli gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol. Nid oes modd dweud i sicrwydd a fyddai datgelu'r trafodaethau ar hyn o bryd yn rhoi awgrym cywir o ganlyniad terfynol unrhyw bolisi dilynol fyddai'n cael ei ffurfio. Gallai hyn fynd yn erbyn budd cyhoeddus pe bai'n arwain at ddsbarthu gwybodaeth anghywir neu anghyflawn, gan greu disgwyliadau ffug. Mae'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau lles yn haeddu, ac angen, eglurder.

Mae budd cadarn i'r cyhoedd o sicrhau man diogel i gael trafodaethau llawn, agored rhwng Gweinidogion Cymru, cynghorwyr arbenigol a swyddogion, pryd bynnag y bydd polisiau ar gyfer y dyfodol yn cael eu trafod a'u ffurfio, er mwyn gwneud yn siŵr bod modd cyfnewid barn, syniadau a chynigion yn rhydd ac yn onest. Ni fyddai budd i'r cyhoedd o lesteirio ansawdd y polisiau sy'n cael eu cynhyrchu.

Mae'r bwriad i gomisiynu adolygiad cyflym o'r dystiolaeth a'r adroddiad terfynol yn gyhoeddus a heb eu cadw yn ôl.

### **Cydbwysu buddiannau'r cyhoedd**

Ar ôl pwysu a mesur, mae budd y cyhoedd yn ffafrio dal yr wybodaeth y gofynnwyd amdani yn ôl.